


# Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu Cymru

**GWYBODAETH AM Y FARCHNAD LAFUR 2009-2013**



Experian™

constructionskills

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **1** Penawdau | 3 |
| **2** Y rhagolygon ar gyfer adeiladu yng Nghymru | 4 |
| **3** Rhagolygon cyflogaeth adeiladu Cymru | 10 |
| **4** Cymariaethau ar draws y Deyrnas Unedig | 12 |
| Atodiad I – Methodoleg | 14 |
| Atodiad II – Geirfa | 16 |
| Atodiad III – Troednodiadau ac olion traed | 17 |
| Atodiad IV – Grwpiau galwedigaethol | 18 |
| Atodiad V – Gwefan a manylion cyswllt CSN | 22 |


SgiliauAdeiladu yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer adeiladu, sydd wedi derbyn yr orchwyl gan y Llywodraeth i sicrhau fod gan ddiwydiant mwyaf y Deyrnas Unedig y gweithlu medrus mae angen. Gan weithio gyda'r Llywodraeth, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr, mae'n gyfrifol am sicrhau fod gan y diwydiant ddigon o newydd-ddyfodiaid cymwys a bod y gweithlu presennol yn gwbl fedrus a chymwys, yn ogystal ag am wella perfformiad y diwydiant a'r cwmnïau oddi mewn iddo.

# 1 Penawdau

### 1.1 Economi Cymru

- Roedd economi Cymru werth £41 biliwn yn 2007 yn ôl prisiau 2003, sy’n cyfateb i 3.7% o gyfanswm y Deyrnas Unedig.
- Creodd gwasanaethau cyhoeddus 27.9% o weithgaredd economaidd ar gyfer Cymru, cyfran llawer uwch nag yn y Deyrnas Unedig yn 2007.
- Rhagwelir y bydd economi Cymru yn tyfu ar gyfradd gyfartalog flynyddol o 1.2% rhwng 2009 a 2013, ychydig yn llai na chyfradd y Deyrnas Unedig. Disgwylir y bydd y gyfradd fwyaf o dwf yn ystod y cyfnod hwn ar gyfer gwasanaethau ariannol a busnes a’r sectorau trafnidiaeth a chyfathrebu.


### 1.2 Allbwn adeiladu yng Nghymru

- Gyda gwerth o £3.1 biliwn yn 2007 (prisiau 2000), roedd allbwn adeiladu yn atebol am 3.7% o gyfanswm y Deyrnas Unedig.
- Rhagwelir y bydd allbwn yng Nghymru yn tyfu ar gyfradd gyfartalog flynyddol o 0.6% rhwng 2009 a 2013, yn gyffredinol yn unol â’r Deyrnas Unedig.
- Yn ystod cyfnod y rhagolwg, disgwylir i seilwaith fod y sector gryfaf, wedi ei ysgogi gan fuddsoddiad arfaethedig ar nifer o gynlluniau ffyrdd a phrosiectau creu trydan, megis gorsaf ber yn defnyddio sglodion pren ym Mhort Talbot.

### 1.3 Cyflogaeth adeiladu yng Nghymru

- Rhagwelir y bydd cyfanswm cyflogaeth adeiladu yng Nghymru o 113,510 yn 2007 yn gostwng i 107,920 erbyn 2009, ac yna’n codi 4.6% i 112,860 yn 2013.
- Er mwyn ateb y galw hwn, ac wedi ystyried y rhai a ddaw i’r diwydiant o lwybr gwahanol i hyfforddiant a’r rhai sy’n gadael, bydd angen i 2,330 o weithwyr newydd ymuno â’r diwydiant pob blwyddyn.
- Disgwylir i fasnachau pren a dodrefnu mewnol a llafurwyr nec* fod â’r gofynion recriwtio blynyddol (GRB) mwyaf.

**Cyfartaledd blynyddol twf allbwn adeiladu 2009-2013 – Cymru**




**Ffynhonnell: CSN, Experian.**
**Troednodyn: 2 (Gweler Atodiad III)**

**Cymhariaeth ranbarthol 2009-2013**

| | Newid % cyfartalog blynyddol mewn allbwn | Twf yng nghyfanswm cyflogaeth | Cyfanswm GRB |
|---|---|---|---|
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 0.5% | 5,620 | 2,010 |
| Swydd Efrog a Humber | 0.0% | 2,860 | 1,390 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 0.8% | 6,220 | 1,980 |
| Dwyrain Lloegr | 0.9% | 10,570 | 2,890 |
| Llundain Fwyaf | 0.8% | 12,110 | 6,030 |
| De Ddwyrain Lloegr | 0.5% | 13,288 | 5,690 |
| De Orllewin Lloegr | -0.2% | -20 | 1,450 |
| Cymru | 0.6% | 4,940 | 2,330 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 0.2% | 3,930 | 3,620 |
| Gogledd Iwerddon | 1.6% | 3,030 | 900 |
| Gogledd Orllewin Lloegr | 0.2% | 6,040 | 4,780 |
| Yr Alban | 0.6% | 5,480 | 3,960 |
| **Y Deyrnas Unedig** | **0.5%** | **74,070** | **37,030** |

**Ffynhonnell: CSN, Experian.**
**Troednodyn: 2 (Gweler Atodiad III)**

Roedd yr economi yng Nghymru werth

£41biliwn yn 2007

ar brisiau 2003, sy’n cyfateb i 3.7% o gyfanswm y Deyrnas Unedig

* nec – na ddosbarthir mewn man arall

# 2 Y rhagolwg ar gyfer adeiladu yng Nghymru

**2.1 Allbwn adeiladu yng Nghymru – trosolwg**
Wedi cyfnod o ddirywiad rhwng 1998 a 2001, fe atgyfnerthodd y diwydiant gyda chyfanswm twf o bron i 37% rhwng 2002 a 2004. Yn dilyn hyn, bu proffil allbwn Cymru yn bennaf wastad, gyda'r canlyniad amcanol ar gyfer 2007 yn £3.1 biliwn yn ôl prisiau 2000.

Rhwng 2001 a 2007, tyfodd allbwn gwaith newydd ar gyfradd gyflymach na chynnal a chadw. Ehangodd gwaith newydd 28% yn ystod y cyfnod hwn i gyrraedd oddeutu £2 biliwn, yn ôl prisiau 2000, tra bod cynnal a chadw wedi gweld twf o'n agos i 16% i £1.2 biliwn.

Gwelodd gwaith adeiladu cyhoeddus nad ydynt yn gartrefi dwf sylweddol o gyfanswm o 146% rhwng 2001 a 2007, yn fwy nag unrhyw sector arall yng Nghymru. Cafwyd cynnydd sylweddol mewn gweithgaredd ar dai masnachol a phreifat hefyd, o 48% a 37% yn y drefn honno. Daeth bron holl gyfanswm twf ar gyfer allbwn gwaith yn ystod y cyfnod dan sylw o'r tri sector hwn.

Cofnododd seilwaith y cwymp mwyaf mewn allbwn ers 2001, gan leihau o 29% i £275 miliwn yn 2007. Roedd gostyngiadau hefyd o ran tai cyhoeddus a diwydiant, gyda'r sectorau'n cyfangu o 13% a 2%, yn y drefn honno, yn ystod y cyfnod.

Gwerth

£3.1biliwn yn 2007


(prisiau 2000), roedd allbwn adeiladu yn atebol am 3.7% o gyfanswm y Deyrnas Unedig

**2.2 Strwythur y diwydiant**
Mae'r diagram yn dangos dadansoddiad sector y diwydiant adeiladu yng Nghymru o gymharu â'r Deyrnas Unedig. Mewn effaith, mae'r canrannau ar gyfer pob sector yn arddangos pa gyfran o gyfanswm allbwn mae'r sector yn gyfrifol amdano.

Mae rhai newidiadau arwyddocaol yn strwythur y diwydiant adeiladu yng Nghymru o gymharu â'r Deyrnas Unedig. Yn benodol, mae'r sector cynnal a chadw yn llai yng Nghymru, gan gwmpasu dim ond 37% o allbwn yn 2007, o gymharu â 44% yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Ymysg y sectorau gwaith newydd, roedd seilwaith yng Nghymru 3% yn fwy yn gyfrannol nag yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol, tra bod adeiladau cyhoeddus nad ydynt yn dai 5% yn fwy.


Y newid mwyaf ers 2006 oedd cynnydd o 3% yng nghyfran y sector masnachol yng Nghymru.

**Strwythur y diwydiant adeiladu 2007 - Y Deyrnas Unedig a Chymru**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Experian

**Allbwn adeiladu 1991-2007 – Cymru**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Troednodyn: 1 (Gweler Atodiad III)

**2.3 Trosolwg economaidd**

Mae perfformiad disgwyliedig economi ranbarthol neu genedlaethol yn ystod cyfnod y rhagolwg (2009-2013) yn rhoi awgrym o ba sectorau adeiladu sy'n debygol o fod â'r galw cryfaf.

**2.4 Strwythur economaidd**

Yn 2007, roedd economi Cymru werth tua £41.4 biliwn, yn ôl prisiau 2003, 3.2% yn uwch nag yn 2006 ac yn cyfateb i 3.7% o gyfanswm y Deyrnas Unedig.

Gwasanaethau cyhoeddus oedd elfen fwyaf economi Cymru, yn atebol am 27.9% o'r cyfanswm. Roedd hyn yn drawiadol uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig yn 2007. Daeth hyn ar draul y sector gwasanaethau cyllid a busnes, oedd yn sylweddol lai na chyfartaledd y Deyrnas Unedig fel ail sector fwyaf Cymru. Roedd dosrannu, gwestai ac arlwyo yn atebol am 15.4% arall o GYC.

Gwelodd gwasanaethau ariannol a busnes y twf mwyaf yn ei gyfran o GYC ers 2000, gan gynyddu o 14.2% i 21.5% yn 2007. Mewn gwrthgyferbyniad, er mai dyma sector mwyaf Cymru, crebachodd cyfran gwasanaethau cyhoeddus o 2.3% yn yr un cyfnod.



Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

**Strwythur economaidd - Cymru**
**(£ biliwn, prisiau 2003)**

| Sectorau dethol | Gwir | Rhagolwg Newid % blynyddol, termau real | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 |
| Gwasanaethau cyhoeddus | 12 | 2.0 | -0.4 | 0.7 | 1.4 | 1.4 | 1.3 |
| Gwasanaethau cyllid a busnes | 9 | 3.0 | -0.3 | 2.8 | 5.0 | 5.4 | 5.3 |
| Trafnidiaeth a chyfathrebu | 2 | 1.2 | 2.6 | 4.2 | 3.9 | 3.5 | 3.2 |
| Cynhyrchu | 7 | 4.8 | -2.6 | -0.1 | 0.8 | 0.2 | 0.1 |
| Dosrannu, gwestai ac arlwyo | 6 | -0.5 | -0.5 | 0.7 | 2.1 | 2.1 | 1.9 |
| **Cyfanswm Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC)** | **41** | **2.1** | **-0.9** | **1.0** | **2.0** | **1.9** | **1.9** |

**Ffynhonnell: Experian**
**Troednodyn: 3 (Gweler Atodiad III)**

**Dangosyddion economaidd - Cymru**
**(£ biliwn, prisiau 2003 – oni nodir fel arall)**

| | Gwir | Forecast Newid % blynyddol, termau real | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 |
| Incwm dros ben real cartrefi | 34 | 1.0 | 0.6 | 0.9 | 1.8 | 2.3 | 2.2 |
| Gwariant cartrefi | 32 | 1.2 | -0.9 | 0.6 | 3.4 | 3.3 | 2.6 |
| Cymhareb dyled:incwm | 1.1 | 2.5 | -2.6 | -6.2 | -6.6 | -4.4 | -2.2 |
| Prisiau tai (£'000, prisiau presennol) | 165 | -1.3 | -11.6 | -7.7 | -0.1 | 1.6 | 1.7 |
| Diweithdra LFS (miliynau) | 0.08 | 15.8 | 35.6 | 4.0 | -9.1 | -8.8 | -5.9 |

**Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, DCLG, Experian**

**2.5 Dangosyddion economaidd rhagamcanol**

Disgwylir i economi Cymru dyfu ar gyfradd gyfartalog flynyddol o 1.2% rhwng 2009 a 2013, ychydig yn llai nag 1.4% y Deyrnas Unedig. Er gwaethaf ei broblemau presennol, disgwylir i'r sector gwasanaethau cyllid a busnes adfer yn rhan olaf cyfnod y rhagolwg a pharhau i fod y rhan o economi Cymru sy'n tyfu gyflymaf rhwng 2009 a 2013, er y bydd trafnidiaeth a chyfathrebu yn agos ar ei ôl.

Disgwylir i incwm dros ben cartrefi Cymru gynyddu'n cyflymach na gweddill y Deyrnas Unedig yn ystod cyfnod y rhagolwg. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd gwariant cartrefi yn tyfu'n arafach na'r Deyrnas Unedig. Yn rhannol o ganlyniad i hyn, ceir rhagamcan y bydd y gyfradd o ddyled i incwm yn lleihau dwywaith cymaint â gweddill y Deyrnas Unedig o 2009 i 2013.

Adroddodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) fod prisiau tai yng Nghymru wedi cynyddu 6.8% yn 2007 o'r flwyddyn flaenorol i gyrraedd cyfartaledd o £165,000. Mae hyn yn isel o gymharu â chyfartaledd pris tŷ yn y Deyrnas Unedig o £214,000. Amcangyfrifir fod prisiau tai yng Nghymru wedi gostwng ychydig yn 2008 ac y bydd cyfradd y lleihad yn cynyddu'n sylweddol yn 2009. Rhagwelir y bydd prisiau tai yng Nghymru yn gostwng o gyfanswm o 21% rhwng 2008 a 2011, gan ddefnyddio mesur DCLG fel sail, canlyniad ychydig yn waeth nag ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyflawn.

**2.6 Archebion adeiladu newydd – trosolwg**

Gwelwyd gostyngiad mewn archebion gwaith newydd yng Nghymru o 15% yn 2007 o'r flwyddyn flaenorol i £2 biliwn, yn ôl prisiau presennol. Mae hyn yn dilyn pum mlynedd o dwf hyd at 2006 ble roedd cynnydd sylweddol mewn archebion newydd.

Gwelodd adeiladu masnachol, y sector mwyaf yng Nghymru, ostyngiad o 24% mewn archebion newydd yn 2007, er ei fod o lefel uchel iawn yn 2006. Roedd cwymp sylweddol o 40% ar gyfer seilwaith hefyd yn yr un cyfnod. Mae'r sector seilwaith yn dueddol o fod yn gyfnewidiol yn ei lefel o archebion newydd gan y gall maint cytundebau unigol fod yn fawr, felly gall un archeb newydd achosi cryn dipyn o newid yn yr ystadegau. Roedd archebion tai preifat a chyhoeddus nad ydynt yn gartrefi hefyd i lawr o'r flwyddyn flaenorol yn 2007.

Fodd bynnag, gwelodd dau sector lleiaf Cymru, diwydiannol a thai cyhoeddus, gynnydd sylweddol yng ngwerth archebion newydd.

**2.7 Archebion adeiladu newydd – sefyllfa bresennol**

Yn nhri chwarter cyntaf 2008, roedd cyfanswm archebion gwaith newydd yn £1.2 biliwn (prisiau presennol), cwymp o 22% o'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Gwelodd y sectorau tai preifat a masnachol leihad arwyddocaol yn ystod naw mis cyntaf 2008, o gymharu â'r un cyfnod yn 2007, gan ostwng o 61% a 33% yn y drefn honno. Mae hyn yn awgrym pendant o effaith y dirywiad economaidd wrth i alw am dai a chyfleusterau swyddfa a manwerthu newydd ddiflannu. Er i'r sectorau diwydiannol a thai cyhoeddus hefyd weld lleihad yn yr un cyfnod, roeddent yn gymharol lai. Roedd cyfanswm archebion cyhoeddus nad ydynt yn dai yn £260 miliwn i ddiwedd Medi, i lawr 7% yn unig o'r flwyddyn flaenorol.


Seilwaith oedd yr unig eithriad i'r lleihad a welwyd yng ngweddill y sectorau. Fe welodd gynnydd serth, bron yn dyblu blwyddyn ar flwyddyn i Fedi 2008 i gyfanswm o £277 miliwn, yn ôl prisiau presennol.

**Archebion adeiladu gwaith newydd – Cymru (£ miliwn, prisiau presennol)**

| | Gwir | Newid % Blynyddol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2007 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 |
| Tai cyhoeddus | 82 | 45.5 | -39.6 | 75.9 | 0.0 | 61.5 |
| Tai preifat | 551 | 38.1 | 10.1 | 16.3 | -3.1 | -8.7 |
| Seilwaith | 198 | -40.4 | 27.6 | 206.2 | -44.4 | -40.0 |
| Cyhoeddus nad ydynt yn dai | 388 | 19.4 | -19.4 | -10.4 | 57.8 | -16.5 |
| Diwydiannol | 174 | 20.7 | 49.5 | 6.1 | -33.1 | 66.1 |
| Masnachol | 576 | 21.4 | 13.7 | 5.6 | 66.9 | -24.4 |
| **Cyfanswm gwaith newydd** | **1,969** | **14.2** | **6.0** | **30.5** | **6.4** | **-14.9** |

**Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol**
**Troednodyn: 4 (Gweler Atodiad III)**

**Twf archebion adeiladu newydd 1992-2007 – Cymru o gymharu â'r Deyrnas Unedig**




**Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol  Troednodyn: 4 (Gweler Atodiad III)**

**2.8 Allbwn adeiladu – rhagolygon byrdymor (2009–2010)**
Cyhoeddir ystadegau allbwn rhanbarthol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ôl prisiau presennol ac felly maent yn cynnwys effeithiau posibl chwyddiant. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, dim ond ar gyfer tri chwarter cyntaf 2008 y ceir ystadegau allbwn adeiladu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Roedd cyfanswm allbwn adeiladu yng Nghymru yn £3.6 biliwn i ddiwedd Medi yn 2008, i lawr 3.7% o'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Fe berfformiodd y sector cynnal a chadw'n well na gwaith newydd, gyda'r blaenorol yn profi cynnydd o 3.2% yn ystod yr un cyfnod i £1.3 biliwn, tra bod yr ail yn gweld lleihad o 7.4% mewn allbwn i £2.3 biliwn.

Ar sail gyfartalog flynyddol rhwng 2009 a 2010, rhagwelir y bydd allbwn gwaith newydd yn lleihau o 2.9%, ond dylai cynnal a chadw gynyddu 0.6%. Rhagwelir y bydd cyfanswm allbwn yn gostwng 3% yn 2009, cyn sefydlogi yn 2010.


Yn naw mis cyntaf 2008, tyfodd allbwn yn y sector tai cyhoeddus cymaint â 18%. Efallai fod y cynnydd mewn tai cyhoeddus wedi ei gefnogi gan gyhoeddiad Llywodraeth y Cynulliad o gynnydd mewn cyllid ar gyfer tai cymdeithasol, i fyny o bron i 11% yn 2008/2009 i £103.4 miliwn. Fodd bynnag, disgwylir i'r sector weld gostyngiadau blynyddol cyfartalog o 4.8% rhwng 2009 a 2010 wrth i'r lleihad mewn datblygiadau preifat effeithio ar allu darparwyr tai cymdeithasol i leoli prosiectau newydd.

Roedd seilwaith yn fywiog, gan gynyddu o 11% yn nhri chwarter cyntaf 2008 o gyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol diolch i ddechrau gwaith ar nifer o gynlluniau ffyrdd newydd, yn cynnwys prosiect ffordd osgoi £90 miliwn Pentre'r Eglwys, a datblygiadau ynni megis y derfynell LNG yn Aberdaugleddau.

Fel gyda gweddill y Deyrnas Unedig, y sector tai preifat sy'n dioddef fwyaf o'r dirywiad economaidd ar hyn o bryd, gan gael ei effeithio'n arbennig gan gyfyngiadau yn y farchnad gredyd. Roedd allbwn yn nhri chwarter cyntaf 2008 i lawr gryn dipyn o 26% o gymharu â'r un cyfnod yn 2007, a disgwylir cwymp mawr pellach yn 2009. Fodd bynnag, erbyn 2010 rhagwelir y bydd rhywfaint o adferiad ar gyfer adeiladu tai preifat, er bod hyn yn fwy tebygol o ddechrau yn ail hanner y flwyddyn na'r cyntaf.

Dirywiodd allbwn adeiladau cyhoeddus nad ydynt yn gartrefi o 11% yn nhri chwarter cyntaf 2008 wrth gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, ac fe ragwelir y bydd yn dal i ostwng o gyfartaledd o 2.5% y flwyddyn yn 2009 a 2010.

**Cyfartaledd blynyddol twf allbwn adeiladu 2009-2010 – Cymru**




**Ffynhonnell: Experian**
**Troednodyn: 2 (Gweler Atodiad III)**

Mae'r Cynulliad wedi dynodi y bydd y rhaglen gyfalaf ar gyfer iechyd ac addysg yn gostwng mewn termau real rhwng 2008 a 2011.

Daeth allbwn masnachol i gyfanswm o £641m yn naw mis cyntaf 2008, gan ostwng 5% o'r un cyfnod yn 2007. Ynghyd â thai preifat ac adeiladu diwydiannol, dyma'r sector sydd wedi ei effeithio fwyaf uniongyrchol gan y dirywiad economaidd. Fodd bynnag, tra bydd cyfran arwyddocaol o'r lleihad mewn allbwn tai preifat wedi digwydd yn 2008, golyga'r amser dirwyn hirach ar brosiectau masnachol mawr fod allbwn yn debygol o leihau yn y sector hyd at 2010.

**Allbwn adeiladu – Cymru (£ miliwn, prisiau 2000)**

| | Gwir | Rhagolwg newid % blynyddol | | | Cyfartaledd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2009-2010 |
| Tai cyhoeddus | 54 | 7% | -1% | -9% | -4.8% |
| Tai preifat | 491 | -34% | -13% | 8% | -3.0% |
| Seilwaith | 275 | 3% | 6% | 6% | 5.9% |
| Cyhoeddus nad ydynt yn dai | 400 | -7% | -4% | -1% | -2.5% |
| Diwydiannol | 158 | 21% | -7% | -5% | -6.4% |
| Masnachol | 574 | -7% | -9% | -4% | -6.6% |
| **Gwaith newydd** | **1,952** | **-10%** | **-6%** | **0%** | **-2.9%** |
| Cynnal a chadw tai | 654 | 2% | 3% | 3% | 2.9% |
| Cynnal a chadw ag eithrio tai | 523 | 3% | -2% | -2% | -2.3% |
| **Cyfanswm cynnal a chadw** | **1,178** | **3%** | **1%** | **1%** | **0.6%** |
| **Cyfanswm gwaith** | **3,129** | **-5%** | **-3%** | **0%** | **-1.4%** |

**Ffynhonnell: Experian**
**Troednodyn: 1 a 2 (Gweler Atodiad III)**

**2.9 Allbwn adeiladu – rhagolygon hirdymor (2009–2013)**
Rhagwelir y bydd cyfanswm allbwn adeiladu yn tyfu ar gyfradd gyfartalog flynyddol o 0.6% yn y tymor hirach. Disgwylir i'r sector cynnal a chadw wneud yn well na gwaith newydd, gyda chyfraddau twf cyfartalog blynyddol o 0.9% a 0.3% yn y drefn honno. Proffwydir y bydd sector cynnal a chadw tai arbennig o fywiog yn sylfaen i dwf cryfach yng nghyfanswm cynnal a chadw, diolch i weithgaredd cynyddol dan y cynllun Safonau Ansawdd Tai.

Dengys y dadansoddiad o'r sector gwaith newydd mai seilwaith fydd seren y sioe yn yr hirdymor, fel sy'n wir mewn nifer o ranbarthau a chenhedloedd. Rhagwelir y bydd y sector yn tyfu ar gyfradd flynyddol o 5.2% yn ystod y cyfnod wrth ddechrau gwaith ar brosiectau ffyrdd arfaethedig megis Ffordd Ddosbarthu'r Cyrion £84 miliwn Port Talbot, y cynllun PFI £320 miliwn i ehangu'r M4 a phont newydd ar draws Afon Menai. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys gorsaf bŵer sglodion pren £400 miliwn ym Mhort Talbot. Y prosiect mwyaf ar y gorwel i'r sector yw cynllun Morglawdd Hafren, gyda chynlluniau dichonoldeb yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd. Os bydd y prosiect £15 biliwn hwn yn mynd yn ei flaen, mae'n bosibl y bydd yn dechrau cyn diwedd cyfnod y rhagolwg, er y bydd allbwn o'r cynllun wedi ei rannu rhwng Cymru a De Orllewin Lloegr.

Golyga'r diffyg cydbwysedd mewn galw a chyflenwad yn y sector dai y dylai allbwn tai preifat adfer wedi gweld cwymp yn 2008 a 2009. Mae pa mor gryf fydd yr adferiad yn bwnc trafod ar hyn o bryd ac mae'r rhagolygon wedi tueddu i ochri gyda'r mwyaf gwyliadwrus, gan fynd ag allbwn y sector yn ôl i'w lefel yn 2002 erbyn 2013 yn unig.

Yn y tymor canolig, disgwylir i'r sector tai cyhoeddus weld gostyngiad cyfartalog blynyddol o 1.4%, yn bennaf oherwydd cwymp mewn gweithgaredd yn rhan gynharaf y cyfnod. Fodd bynnag, rhwng 2010 a 2011, rhagwelir y bydd y sector yn edrych yn gryfach gyda thwf blynyddol cyfartalog o 3.0% ar gyfer y ddwy flynedd. Mae hyn am fod y Cynulliad wedi ailadrodd ei amcan o adeiladu 6,500 o dai fforddiadwy atodol erbyn 2010/11.

Wedi hynny, rhagwelir y bydd allbwn tai cyhoeddus yn gostwng ymhellach o 3% yn 2013.


Yn wahanol i nifer o ranbarthau Lloegr, ymddengys nad oes llawer o obaith am dwf yn y sector adeiladau cyhoeddus nad ydynt yn gartrefi yn ystod y cyfnod 2009-2013. Os nad oes disgwyl i waith iechyd ac addysg gyhoeddus dyfu yn y byrdymor, yna mae'n hyd yn oed llai tebygol o ehangu yn y tymor canolig wrth i lywodraeth y Deyrnas Unedig anelu at leihau buddsoddiad cyfalaf ledled y wlad i sefydlogi dyled gyhoeddus sydd wedi cynyddu'n sylweddol.

Rhagwelir y bydd adeiladu diwydiannol yn cywasgu ar gyfradd gyfartalog flynyddol o 0.8%. Fodd bynnag, mae'r cwymp yn ystod y cyfnod yn bennaf oherwydd gostyngiadau yn y byrdymor, tra bod rhagolygon tymor canolig yn well wrth i'r economi byd-eang adfer ac i alw domestig ac allforio gynyddu.

Wedi cyfradd o ddirywiad cyfartalog blynyddol o 6.6% rhwng 2009 a 2010 ar gyfer y sector fasnachol, disgwylir gweld cyfnod o gyfanswm twf cadarn o 7.8% yn ystod y tair blynedd i 2013 wrth i brosiectau swyddfa, manwerthu a hamdden a ohiriwyd yn ystod y dirywiad economaidd ddechrau eto.

Fodd bynnag, ar sail gyfartalog flynyddol dros gyfnod cyfan y rhagolwg o 2009-2013, disgwylir i'r sector brofi cyfangiad o 0.6%.

**Cyfartaledd blynyddol twf allbwn adeiladu 2009-2013 – Cymru**




**Ffynhonnell: CSN, Experian.**
**Troednodyn: 2 (Gweler Atodiad III)**

**Allbwn adeiladu – Cymru**
**(£ miliwn, prisiau 2000)**

| | Amcan-gyfrif | Rhagolwg newid % blynyddol | | | | | Cyfartaledd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2009-2013 |
| Tai cyhoeddus | 58 | -1% | -9% | 3% | 3% | -3% | -1.4% |
| Tai preifat | 324 | -13% | 8% | 6% | 5% | 4% | 1.6% |
| Seilwaith | 282 | 6% | 6% | 5% | 5% | 4% | 5.2% |
| Cyhoeddus nad ydynt yn dai | 372 | -4% | -1% | -5% | -5% | 0% | -3.0% |
| Diwydiannol | 191 | -7% | -5% | 2% | 4% | 4% | -0.8% |
| Masnachol | 535 | -9% | -4% | 2% | 4% | 4% | -0.6% |
| **Gwaith newydd** | **1,763** | **-6%** | **0%** | **2%** | **3%** | **3%** | **0.3%** |
| Cynnal a chadw tai | 671 | 3% | 3% | 2% | 2% | -3% | 1.5% |
| Cynnal a chadw ag eithrio tai | 1,210 | -2% | -2% | 0% | 3% | 2% | 0.1% |
| **Cynnal a chadw** | **1,881** | **1%** | **1%** | **1%** | **3%** | **-1%** | **0.9%** |
| **Cyfanswm gwaith** | **2,973** | **-3%** | **0%** | **2%** | **3%** | **2%** | **0.6%** |

**Ffynhonnell: CSN, Experian.**
**Troednodyn: 2 (Gweler Atodiad III)**



# 3 Rhagolygon cyflogaeth adeiladu Cymru

**3.1 Cyfanswm rhagolygon cyflogaeth adeiladu yn ôl galwedigaeth**
Dengys y tabl, Cyfanswm cyflogaeth yn ôl galwedigaeth – Cymru, wir gyflogaeth adeiladu (SIC 45 a 74.2) yng Nghymru ar gyfer 2007, a chyfanswm cyflogaeth a ragwelir ar gyfer pob un o'r 26 galwedigaeth rhwng 2009 a 2013. Ceir dadansoddiad llawn o'r galwedigaethau yn Atodiad IV.

Erbyn 2013, rhagwelir y bydd cyfanswm cyflogaeth adeiladu yn cyrraedd 112,860, ychydig yn llai na 2007, ond cynnydd o 4.6% ar gyfanswm rhagamcanedig 2009. Yn 2013, disgwylir y bydd 102,090 o weithwyr yn gweithio yn SIC 45, tra rhagwelir y bydd 10,770 yn gweithio yn SIC 74.2.

Roedd dros draean o weithwyr yn y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn 2007 yn syrthio o fewn pedair galwedigaeth - rheolwyr adeiladu, gweithwyr ag eithrio i adeiladu, technegol, TG, a staff swyddfa eraill, crefftau pren a dodrefnu mewnol, a llafurwyr nec*.

Rhagwelir y bydd cyfanswm cyflogaeth adeiladu yng Nghymru o 113,510 yn 2007 yn gostwng i 107,920 erbyn 2009 ac yna'n codi 4.6% i 112,860 yn 2013

Rhagwelir y bydd y twf absoliwt mwyaf mewn cyflogaeth adeiladu yng Nghymru rhwng 2009 a 2013 ymysg llafurwyr nec* (760) ac yna rheolwyr adeiladu (690).

Fodd bynnag, disgwylir i syrfewyr weld y cynnydd canrannol mwyaf mewn cyflogaeth rhwng 2009 a 2013 (11.9%), gyda llafurwyr nec* (10.9%) yn ail a rheolwyr adeiladu (9.5%) yn drydydd.

Dadelfennwyd gweithwyr adeiladu i bedwar categori galwedigaethol wrth baratoi'r Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu yn 2008 - peirianwyr sifil, gweithwyr adeiladu eraill a staff technegol, penseiri, a syrfewyr.

Dengys canlyniad y dadelfennu hwn fod 23% o weithwyr adeiladu Cymru wedi eu dosbarthu fel peirianwyr sifil, 6% fel penseiri a 25% fel syrfewyr yn 2007.



**Cyfanswm cyflogaeth yn ôl galwedigaeth - Cymru**

| | Gwir | Rhagolwg | |
|---|---|---|---|
| | 2007 | 2009 | 2013 |
| Rheolwyr uwch, gweithredol, a phroses busnes | 3,630 | 3,450 | 3,730 |
| Rheolwyr adeiladu | 7,680 | 7,250 | 7,940 |
| Gweithwyr nad ydynt yn adeiladu, technegol, TG, a staff swyddfa eraill | 10,370 | 9,840 | 10,500 |
| Crefftau pren a dodrefnu mewnol | 14,440 | 14,060 | 14,540 |
| Bricwyr | 3,360 | 2,860 | 2,890 |
| Arbenigwyr amlen adeilad | 4,960 | 4,660 | 4,960 |
| Peintwyr a phapurwyr | 6,080 | 5,770 | 5,870 |
| Plastrwyr a leinwyr sych | 3,490 | 3,320 | 3,550 |
| Gosodwyr toeau | 1,020 | 900 | 880 |
| Gosodwyr lloriau | 1,340 | 1,220 | 1,260 |
| Gwydrwyr | 2,630 | 2,610 | 2,680 |
| Gweithredwyr adeilad arbenigol nec* | 4,310 | 4,110 | 4,260 |
| Sgaffaldwyr | 1,600 | 1,490 | 1,540 |
| Gweithredwyr safle | 3,180 | 3,180 | 3,160 |
| Peirianwyr/ffitwyr safle | 1,020 | 950 | 1,010 |
| Codwyr haearn/strwythurol | 2,410 | 2,330 | 2,460 |
| Llafurwyr nec* | 7,340 | 6,950 | 7,710 |
| Crefftwyr a gosodwyr trydan | 5,510 | 5,310 | 5,350 |
| Crefftwyr plymio a HVAC | 6,660 | 6,300 | 6,580 |
| Logisteg | 1,740 | 1,650 | 1,730 |
| Gweithredwyr peiriannu sifil nec* | 3,940 | 4,080 | 4,100 |
| Gweithwyr nad ydynt yn adeiladu | 5,710 | 5,150 | 5,390 |
| Peirianwyr sifil | 2,590 | 2,420 | 2,330 |
| Gweithwyr adeiladu a staff technegol eraill | 5,060 | 4,960 | 5,060 |
| Penseiri | 650 | 580 | 560 |
| Syrfewyr | 2,790 | 2,520 | 2,820 |
| **Cyfanswm (SIC 45)** | **102,420** | **97,440** | **102,090** |
| **Cyfanswm (SIC 45 a 74.2)** | **113,510** | **107,920** | **112,860** |

**Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, CSN, Experian**
**Troednodyn: 5 a 6 (Gweler Atodiad III)**

* nec – na ddosbarthir mewn man arall

### 3.2 Gofynion recriwtio blynyddol yn ôl galwedigaeth

Mae'r gofyniad recriwtio blynyddol (GRB) yn ofyniad gros sy'n talu sylw i lif gweithlu i mewn ac allan o adeiladu, oherwydd ffactorau megis symud rhwng diwydiannau, ymfudiad, salwch ac ymddeoliad. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys symudiadau i mewn i'r diwydiant o hyfforddiant, er bod data cadarn ar ddarpariaeth hyfforddiant yn cael ei ddatblygu gan SgiliauAdeiladu mewn partneriaeth â chynrychiolwyr Addysg Bellach, Addysg Uwch a Llywodraeth. Felly, mae'r GRB yn rhoi awgrym o'r nifer o gyflogeion newydd fyddai angen recriwtio i'r diwydiant adeiladu pob blwyddyn er mwyn sylweddoli allbwn rhagolygon.



Dangosir y GRB ar gyfer 26 galwedigaeth yn niwydiant adeiladu Cymru rhwng 2009 a 2013 yn y tabl. Mae'r GRB o 2,330 yn awgrym o ofynion cyfartalog pob blwyddyn ar gyfer y diwydiant, yn seiliedig ar ragolygon allbwn y genedl.

Disgwylir i grefftwyr pren a dodrefnu mewnol (390) a llafurwyr nec* (220) fod â'r GRB mwyaf. Fodd bynnag, fel canran o gyflogaeth 2009, disgwylir i'r galw mwyaf fod am blastrwyr a leinwyr sych, gyda'u GRB yn cynrychioli 5.1% o'u cyflogaeth yn y flwyddyn honno. Disgwylir i osodwyr lloriau a gwydrwyr hefyd fod â GRB uchel fel cyfran o gyflogaeth 2009 o 4.9% a 4.6% yn y drefn honno.

Noder bod pob un o'r GRB a gyflwynir yn yr adran hon yn ofynion cyflogaeth ac nid o reidrwydd yn ofynion hyfforddiant. Mae hyn am y bydd rhai newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant adeiladu, megis ymfudwyr medrus neu o ddiwydiannau eraill ble defnyddir sgiliau tebyg, yn gallu gweithio yn y diwydiant heb fod angen ailhyfforddi.

Mae gweithwyr nad ydynt yn adeiladu yn grŵp galwedigaethol amrywiol sy'n cynnwys pob un o'r gweithgareddau dan fantell SIC 45 ac SIC 74.2 na ellir eu dosbarthu mewn man arall, megis glanhawyr, galwedigaethau diogelwch elfennol nec* ac arolygwyr a aseswyr rheolaidd. Mae'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swyddi hyn yn hawdd iawn i'w trosglwyddo i ddiwydiannau eraill ac mae rhagweld symudiad o'r fath yn waith enbydus iawn o ystyried y diffyg data cefnogol. O ganlyniad, ni chyhoeddir y GRB ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn adeiladu.

**Gofyniad recriwtio blynyddol yn ôl galwedigaeth – Cymru**

| | 2009-2013 |
|---|---|
| Rheolwyr uwch, gweithredol, a phroses busnes | <50 |
| Rheolwyr adeiladu | 170 |
| Gweithwyr nad ydynt yn adeiladu, technegol, TG, a staff swyddfa eraill | 160 |
| Crefftau pren a dodrefnu mewnol | 390 |
| Bricwyr | <50 |
| Arbenigwyr amlen adeilad | <50 |
| Peintwyr a phapurwyr | 140 |
| Plastrwyr a leinwyr sych | 170 |
| Gosodwyr toeau | <50 |
| Gosodwyr lloriau | 60 |
| Gwydrwyr | 120 |
| Gweithredwyr adeiladu arbenigol nec* | 110 |
| Sgaffaldwyr | <50 |
| Gweithredwyr safle | 120 |
| Peirianwyr/ffitwyr safle | <50 |
| Codwyr haearn/strwythurol | 50 |
| Llafurwyr nec* | 220 |
| Crefftwyr a gosodwyr trydan | 50 |
| Crefftwyr plymio a HVAC | 130 |
| Logisteg | <50 |
| Gweithredwyr peiriannu sifil nec* | <50 |
| Gweithwyr nad ydynt yn adeiladu | |
| Peirianwyr sifil | <50 |
| Gweithwyr adeiladu a staff technegol eraill | 130 |
| Penseiri | <50 |
| Syrfewyr | <50 |
| **Cyfanswm (SIC 45)** | **2,120** |
| **Cyfanswm (SIC 45 a 74.2)** | **2,330** |

**Ffynhonnell: CSN, Experian.**
**Troednodyn: 5 a 6 (Gweler Atodiad III)**

* nec – na ddosbarthir mewn man arall

# 4 Cymariaethau ar draws y Deyrnas Unedig

Rhwng 2009 a 2013, rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o ranbarthau a chenhedloedd yn gweld cynnydd mewn allbwn adeiladu, ag eithrio Gogledd Orllewin Lloegr, a Swydd Efrog a Humber, gan ddisgwyl y bydd y cyntaf yn gweld lleihad bychan a'r ail yn aros yn sefydlog.


Nid yw De Orllewin Lloegr yn elwa o dwf yn y sectorau seilwaith a chyhoeddus nad ydynt yn gartrefi yn yr un modd a nifer o ranbarthau a chenhedloedd eraill, gan nad oes unrhyw brosiectau peirianneg sifil mawr ar y gweill ar gyfer y rhanbarth o fewn cyfnod y rhagolwg ac ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd wedi eu cynnwys yng nghamau cynnar y rhaglen Adeiladu Ysgolion at y Dyfodol. Yn Swydd Efrog a Humber, mae'r gyfradd twf blynyddol cyfartalog isel o ganlyniad i 2009 wan iawn yn seiliedig ar y cwymp mwyaf mewn archebion newydd ar gyfer unrhyw ranbarth neu genedl yn 2008.

Mae Gogledd Iwerddon yn dal i ddangos y rhagolwg uchaf o dwf mewn allbwn, wedi ei ysgogi gan y strategaeth fuddsoddi arfaethedig ar gyfer y 10 mlynedd nesaf gan Adran Weithredol Gogledd Iwerddon, er bod gofid am sut i'w gyflawni wedi arwain at gyfradd dwf is nag yn flaenorol. Rhagwelir y bydd Dwyrain Canolbarth Lloegr, Dwyrain Lloegr a Llundain Fwyaf hefyd yn gwneud yn well na chyfartaledd y Deyrnas Unedig, gyda Llundain yn elwa'n arbennig o brosiectau seilwaith mawr, y rhaglen Ysgolion at y Dyfodol, a gwaith adeiladu'r Gemau Olympaidd.

Amcangyfrifir fod y GRB ar gyfer Llundain Fwyaf yn 2009-2013 yr uchaf o'r holl ranbarthau, gydag angen am ychydig dros 6,000 o newydd-ddyfodiaid pob blwyddyn. Gellir priodoli'r GRB uchel hwn yn rhannol i'r ffaith fod y rhanbarth yn atebol am gyfran uchel o allbwn adeiladu'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Nesaf mae De Ddwyrain Lloegr, gyda GRB o tua 5,700, sy'n fawr o syndod o ystyried fod maint y farchnad adeiladu yn y rhanbarth yn debyg i un Llundain Fwyaf, ac yna Gogledd Orllewin Lloegr gyda GRB yn agos at 4,800.

Mae'r GRB isaf ar gyfer Gogledd Iwerddon ar 900, er gwaethaf y ffaith mai dyma'r rhanbarth gyda'r gyfradd twf allbwn uchaf yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn am ei bod yn farchnad fechan, yn atebol am tua 2.7% o allbwn a 3.1% o gyflogaeth y Deyrnas Unedig. Mae gan Ogledd Ddwyrain Lloegr GRB gweddol uchel, ychydig dros 2,000, o gymharu â'i faint yn y farchnad. Mae hyn am fod ganddi gyfradd twf rhesymol yn nhermau allbwn ac mae'n dioddef colledion sylweddol o weithwyr adeiladu i ranbarthau eraill.

**Cyfartaledd twf mewn allbwn blynyddol yn ôl rhanbarth 2009-2013**





**Ffynhonnell: CSN, Experian.**
**Troednodyn: 2 (Gweler Atodiad III)**

Mae Cymru yn elwa o gyfartaledd twf blynyddol mewn allbwn sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 0.6% diolch i fuddsoddiad mewn seilwaith.

* nec – na ddosbarthir mewn man arall

**Gofyniad recriwtio blynyddol (GRB) yn ôl rhanbarth 2009-2013**




**Ffynhonnell: CSN, Experian**



# Atodiad I – Methodoleg

**Cefndir**

Mae'r **Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu (CSN)**, a lansiwyd yn 2005, yn newid radical yn y modd mae SgiliauAdeiladu yn casglu a chynhyrchu gwybodaeth ar anghenion cyflogaeth a hyfforddiant y diwydiant yn y dyfodol. Mae CITB-SgiliauAdeiladu, CIC a CITB Gogledd Iwerddon yn gweithio fel SgiliauAdeiladu, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Adeiladu, i gynhyrchu Gwybodaeth Marchnad Lafur cadarn fydd yn sylfaen i gynllunio ar gyfer anghenion sgiliau'r dyfodol ac i dargedu buddsoddiad.

Mae'r Rhwydwaith yn gweithredu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae'n cynnwys Grŵp Cenedlaethol, 12 grŵp Arsylwi, model rhagweld ar gyfer pob un o'r rhanbarthau a gwledydd, a Grŵp Cyfeirnod Technegol. Mae grŵp Arsylwi yn gweithredu ar hyn o bryd ym mhob un o naw rhanbarth Lloegr, a hefyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.



Hwylbont, Abertawe

Mae grwpiau arsylwi yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn ar hyn o bryd ac yn cynnwys rhanddeiliaid rhanbarthol allweddol dan wahoddiad o'r diwydiant, Llywodraeth, addysg a Chynghorau Sgiliau Sector eraill, gyda phob un yn cyfrannu gwybodaeth a barn y diwydiant lleol ar hyfforddiant, sgiliau, recriwtio, cymwysterau a pholisi.

Mae'r Grŵp Cenedlaethol hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant, Llywodraeth, addysg a Chynghorau Sgiliau Sector eraill. Mae'r Grŵp hwn yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac yn sefydlu'r cefndir cenedlaethol, gan greu sylfaen i'r Arsyllfeydd.

Yn ganolog i'r CSN ceir model rhagweld sy'n creu rhagolygon o ofynion cyflogaeth o fewn y diwydiant ar gyfer detholiad o fasnachau. Cynlluniwyd a rheolir y model gan Experian dan ganllaw a gyda dilysiad annibynnol y Grŵp Cyfeirnod Technegol, sy'n cynnwys ystadegwyr ac arbenigwyr modelu.

Rhagwelir y bydd y cynllun yn esblygu gydag amser wrth gyhoeddi ymchwil newydd a gwella technegau modelu. Dim ond wedi ymgynghori gyda'r Grŵp Cyfeirnod Technegol y gweithredir newidiadau i'r model yn y dyfodol.



**Yr arddull model**

Mae'r arddull model yn dibynnu ar gyfuniad o ymchwil a barn gychwynnol gan y CSN i'w hwyluso. Defnyddir data cenedlaethol fel sail ar gyfer y rhagdybiaethau sy'n helaethu'r model, a addasir gyda chymorth y grwpiau Arsylwi a'r Gr p Cenedlaethol. Mae gan bob rhanbarth o Loegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon fodel unigol (er bod pob model yn gysylltiedig oherwydd symudiadau llafur) ac, yn ogystal, ceir un model cenedlaethol sy'n cyfyngu'r modelau unigol ac yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r data mwyaf cadarn (sydd ar gael ar y lefel genedlaethol). Mae'r modelau'n gweithio trwy ragweld cyflenwad a galw am weithwyr medrus ar wahân. Mae'r gwahaniaeth rhwng cyflenwad a galw'n sefydlu'r angen o ran cyflogaeth.

Daw'r rhagolwg lefelau **cyfanswm cyflogaeth** o ddisgwyliadau am allbwn a chynhyrchedd adeiladu. Yn y bôn mae hyn yn seiliedig ar y cwestiwn 'Faint o bobl fydd angen i gynhyrchu'r allbwn a ragwelir, o ystyried y rhagdybiaethau yngl n â chynhyrchedd?'

Mae'r **gofyniad recriwtio blynyddol (GRB)** yn ofyniad gros sy'n talu sylw i lif gweithlu i mewn ac allan o adeiladu, oherwydd ffactorau megis symud rhwng diwydiannau, ymfudiad, salwch ac ymddeoliad. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys symudiadau i mewn i'r diwydiant o hyfforddiant i newydd-ddyfodiaid, er bod data cadarn ar ddarpariaeth hyfforddiant yn cael ei ddatblygu gan SgiliauAdeiladu mewn partneriaeth â chynrychiolwyr Addysg Bellach, Addysg Uwch a Llywodraeth. Felly, mae'r GRB yn rhoi awgrym o'r nifer o gyflogeion newydd fyddai angen recriwtio i'r diwydiant adeiladu pob blwyddyn er mwyn sylweddoli allbwn rhagolygon.

Mae galw yn seiliedig ar ganlyniadau grwpiau trafod sy'n cynnwys arbenigwyr diwydiant, ystyriaeth o allbwn adeiladu a chyfres o fodelau integredig yn ymwneud â pherfformiad economaidd cenedlaethol a rhanbarthol ehangach. Mae'r model yn ddeinamig ac yn adlewyrchu hinsawdd economaidd gyffredinol y Deyrnas Unedig ar unrhyw adeg. I gynhyrchu'r galw am lafur, mae'r model yn defnyddio cyfres o ystadegau penodol ar gyfer pob prif fath o waith (cyfernodau llafur) sy'n pennu'r gyflogaeth sydd angen, yn ôl masnach, i gynhyrchu'r lefelau a ragwelwyd o allbwn adeiladu. Mae'r cyflenwad llafur ar gyfer pob math o fasnach neu broffesiwn yn seiliedig ar gyflenwad y flwyddyn flaenorol (cyfanswm stoc cyflogaeth) ynghyd â llifoedd i mewn ac allan o'r farchnad lafur.

Y colledion (all-lifoedd) allweddol sy'n rhaid eu hystyried yw:


- trosglwyddo i ddiwydiannau eraill
- ymfudiad rhyngwladol/domestig ALLAN
- ymddeoliad parhaol (yn cynnwys y rhai sy'n sâl yn barhaol)
- all-lif sâl dros dro a dyletswyddau yn y cartref.

Y prif reswm tebygol dros all-lif yw trosglwyddo i ddiwydiannau eraill.

Mae llif i mewn i'r farchnad lafur yn cynnwys:

- trosglwyddo i mewn o ddiwydiannau eraill
- ymfudiad rhyngwladol/domestig I MEWN
- mewnlif sâl dros dro a dyletswyddau yn y cartref.

Mae'r mewnlif mwyaf arwyddocaol yn debygol o fod o ddiwydiannau eraill. Dangosir crynodeb o'r model yn y siart llif.




**Ffynhonnell: Experian**

# Atodiad II – Geirfa

- **Arbenigwyr amlen adeilad** - unrhyw fasnach sy'n ymwneud â chladinau allanol yr adeilad ag eithrio bricio, e.e. llenfurio.
- **Galw** – **allbwn** adeiladu, swyddi gwag, a chyfres o **gyfernodau llafur** i drosi galw am weithwyr yn ofynion llafur yn ôl masnach. Cyfrifir galw yn defnyddio data allbwn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Adran Gyllid a Personél Gogledd Iwerddon. Fe arfer daw data swyddi gwag o Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Cenedlaethol yr Adran Addysg a Sgiliau.
- **CMC** – Cynnyrch Mewnwladol Crynswth – cyfanswm gwerth marchnad yr holl nwyddau a gwasanaethau terfynol a gynhyrchir. Mesur o incwm cenedlaethol. GMC=**GYC** a threthi ar gynnyrch llai cymorthdaliadau ar gynnyrch.
- **GYC** – Gwerth Ychwanegol Crynswth – cyfanswm allbwn llai gwerth cyfraniadau a ddefnyddir yn y broses gynhyrchu. Mae GYC yn mesur cyfraniad yr economi fel gwahaniaeth rhwng cynnyrch gros a chynnyrch canolradd.
- **Cyfernodau llafur** – y mewnbwn llafur sydd angen ar gyfer amrywiol fathau o weithgaredd adeiladu. Y nifer o weithwyr ym mhob galwedigaeth/masnach i gynhyrchu £1 miliwn o allbwn ym mhob is-sector.
- **LFS** – Arolwg o'r Llafurlu – arolwg o sampl o gartrefi'r Deyrnas Unedig sy'n casglu gwybodaeth ar gyflogaeth, anghyflogaeth, llif rhwng sectorau a hyfforddiant, o tua 53,000 o gartrefi pob chwarter (>100,000 o bobl).
- **LMI** – Gwybodaeth am y Farchnad Lafur – data sy'n fesurol (rhifau) neu ansoddol (dealltwriaeth a dehongliadau) ar weithwyr, cyflogwyr, cyflogau, amodau gwaith ac ati.
- **Macro-economeg** – astudiaeth o economi ar lefel genedlaethol, yn cynnwys cyfanswm cyflogaeth, buddsoddiad, mewnforion, allforion, cynhyrchiant a threuliant.
- **Nec** – heb eu dosbarthu mewn man arall, a ddefnyddir fel cyfeirnod yn nata LFS.
- **Swyddfa Ystadegau Gwladol** – ystadegau swyddogol ar economi, poblogaeth a chymdeithas ar lefel genedlaethol a lleol yn y Deyrnas Unedig.
- **Allbwn** – cyfanswm gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir o fewn economi.
- **Cynhyrchiant** – allbwn fesul cyflogai.
- **Codau SIC** – codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol – o Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol y Deyrnas Unedig o Weithgareddau Economaidd a gynhyrchir gan y **Swyddfa Ystadegau Gwladol**.
- SgiliauAdeiladu sy'n gyfrifol am SIC 45 Adeiladu a rhan o SIC 74.2 Gweithgareddau Pensaernïol a Pheirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig.
- Mae SgiliauAdeiladu yn rhannu cyfran yn SIC 45.31 Gosod gwifrau a gosodiadau ac SIC 45.33 Plymio gyda SummitSkills. Mae gan AsssetSkills ddiddordeb ymylol yn SIC 74.2.
- **Codau SOC** – Codau Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol.
- **Cyflenwad** – cyfanswm stoc cyflogaeth mewn cyfnod o amser a llif i mewn ac allan o'r farchnad lafur. Fel arfer fe gyfrifir cyflenwad o ddata **LFS**.



# Atodiad III – Troednodiadau ac olion traed

**Troednodiadau**

**1** Ag eithrio Gogledd Iwerddon, cyflenwir data allbwn ar gyfer rhanbarthau Lloegr, Cymru a'r Alban gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar sail prisiau presennol. Felly fe ddefnyddiwyd dadchwyddwyr cenedlaethol a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddadchwyddo i sail pris cyson 2000, h.y. mae effeithiau chwyddiant wedi eu diddymu.

**2** Mae cyfradd twf cyfartalog blynyddol yn gyfradd twf cyfartalog cyfansawdd, h.y. y gyfradd y byddai allbwn yn tyfu pob blwyddyn pe byddai'n cynyddu'n sefydlog blwyddyn ar flwyddyn yn ystod cyfnod y rhagolwg.

**3** Dim ond elfennau dethol o Werth Ychwanegol Crynswth (GYA) a ddangosir yn y tabl hwn, ac felly nid ydynt yn symio i'r cyfanswm.

**4** Ar gyfer archebion adeiladu newydd, gwneir cymhariaeth â Phrydain Fawr yn hytrach na'r Deyrnas Unedig, am nad oes cyfres data archebion ar gyfer Gogledd Iwerddon.

**5** Mae niferoedd cyflogaeth wedi eu crynhoi i'r 10 agosaf.

**6** Mae'r tablau'n cynnwys data yn ymwneud â phlymwyr a thrydanwyr. Yn rhan o SIC 45, mae plymwyr a thrydanwyr yn gweithio o fewn cytundebu yn rhan ganolog o'r broses adeiladu. Fodd bynnag, mae SgiliauAdeiladu yn cydnabod fod gan SummitSkills gyfrifoldeb dros y galwedigaethau hyn ledled detholiad o godau SIC, yn cynnwys SIC 45.31 a 45.33.

**Olion traed Cynghorau Sgiliau Sector Amgylchedd Adeiledig**

Mae'r tabl yn crynhoi'r codau SIC mae SgiliauAdeiladu yn gyfrifol amdanynt:

| | Cod SIC | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **SgiliauAdeiladu** | 45.1 | Paratoi safle |
| | 45.2 | Adeiladu adeilad cyfan neu rannol; peirianneg sifil |
| | 45.3 | Gosodiadau adeilad (ag eithrio 45.31 a |
| | 45.33 | sydd dan ofal SummitSkills |
| | 45.4 | Cwblhau adeilad |
| | 45.5 | Rhentu offer adeiladu neu ddymchwel gyda gweithredwr |
| | 74.2† | Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig |

Olion traed Cynghorau Sgiliau Sector eraill sy'n gyfrifol am Amgylchedd Adeiledig:

**SummitSkills**

Ôl troed – Plymio, Gwresogi, Awyru, Aerdymheru, Rheweiddiad ac Electro-dechnegol.

Cwmpas – Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu

Mae SgiliauAdeiladu yn cydnabod cyfrifoldeb SummitSkills o ran Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol (SIC) 45.31 a 45.33, ac felly mae'r data'n ymwneud â'r sector peirianneg gwasanaethau adeiladu wedi eu cynnwys yma'n bennaf o ran cyfanrwydd.

**AssetSkills**

Ôl troed – Gwasanaethau Eiddo, Tai, Rheoli Cyfleusterau, Glanhau

Cwmpas – Eiddo, Rheolwyr Tai a Thir, Syrfewyr Siartredig, Amcangyfrifwyr, Priswyr, Archwilwyr Cartrefi, Gwerthwyr Tai ac Arwerthwyr (adeiladau ac eiddo), Gofalwyr, Gweithredwyr Symudol a Pheiriannau, Glanhawyr Ffenestri, Ysgubwyr Ffordd, Glanhawyr, Gweithwyr Domestig, Rheolwyr Cyfleusterau.

**Energy and Utility Skills**

Ôl troed – Trydan, Nwy (yn cynnwys gosodwyr nwy), Dŵr a Rheoli Gwastraff

Cwmpas – Creu a dosbarthu ynni; Trosglwyddo, dosbarthu a gosod offer nwy a chynnal a chadw; Casglu, puro a dosbarthu dŵr; Casglu a phrosesu dŵr gwastraff; Rheoli Gwastraff.

† Mae gan AssetSkills ddiddordeb ymylol yn SIC 74.2

# Atodiad IV – Grwpiau galwedigaethol

**Gr p galwedigaethol**
Disgrifiad, cyfeirnod SOC

**Rheolwyr uwch, gweithredol a phroses busnes**
Cyfarwyddwyr a phrif weithredwyr sefydliadau mawr, 1112
Uwch swyddogion llywodraeth leol, 1113
Rheolwyr ariannol ac ysgrifenyddion siartredig, 1131
Rheolwyr marchnata a gwerthiant, 1132
Rheolwyr pwrcasu, 1133
Rheolwyr hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus, 1134
Rheolwyr personél, hyfforddiant a Chysylltiadau diwydiannol, 1135
Rheolwyr swyddfa, 1152
Swyddogion gweithredol y gwasanaeth sifil, 4111
Rheolwyr eiddo, tai a thir, 1231
Rheolwyr gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu, 1136
Rheolwyr ymchwil a datblygu, 1137
Rheolwyr gofal cwsmer, 1142
Rheolwyr storfa a warws, 1162
Rheolwyr diogelwch, 1174
Rheolwyr amgylchedd naturiol a chadwraeth, 1212
Rheolwyr a pherchnogion mewn gwasanaethau eraill nec*, 1239

**Rheolwyr adeiladu**
Rheolwyr cynhyrchu, gwaith a chynnal a chadw, 1121
Rheolwyr gwaith adeiladu, 1122
Rheolwyr sicrwydd ansawdd, 1141
Rheolwyr trafnidiaeth a dosbarthu, 1161
Rheolwyr ailgylchu a gwaredu sbwriel, 1235
Rheolwyr mwyngloddio ac ynni, 1123
Hylenyddion a swyddogion diogelwch galwedigaethol (iechyd a diogelwch), 3567
Swyddogion cadwraeth a diogelu'r amgylchedd, 3551

**Gweithwyr nad ydynt yn adeiladu, technegol, TG, a staff swyddfa eraill (ag eithrio rheolwyr)**
Technegwyr gweithrediadau TG, 3131
Technegwyr chefnogaeth defnyddwyr TG, 3132
Amcangyfrifwyr, priswyr ac aseswyr, 3531
Dadansoddwyr/cynghorwyr cyllid a buddsoddiad, 3534
Arbenigwyr trethi, 3535
Technegwyr ariannol a chyfrifyddu, 3537
Hyfforddwyr galwedigaethol a diwydiannol, 3563
Gweithwyr busnes a chysylltiol perthnasol nec*, 3539
Gweithwyr cysylltiol cyfreithiol, 3520
Archwilwyr ffactrïoedd, gwasanaethau a safonau masnach, 3565
Gweithwyr meddalwedd, 2132
Gweithwyr strategaeth a chynllunio TG, 2131
Gwerthwyr tai, arwerthwyr, 3544
Twrneiod a chyfreithwyr, barnwyr a chrwneriaid, 2411
Gweithwyr cyfreithiol nec*, 2419
Cyfrifwyr siartredig ac ardystiedig, 2421
Cyfrifwyr rheoli, 2422
Ymgynghorwyr rheoli, actiwarïaid, economegwyr ac ystadegwyr, 2423
Derbynyddion, 4216
Teipyddion, 4217
Cynrychiolwyr gwerthiant, 3542
Swyddogion gweinyddol a chynorthwywyr y Gwasanaeth Sifil, 4112
Swyddogion a chynorthwywr clerigol llywodraeth leol, 4113
Clercod cyfrifon a chyflogau, llyfrifwyr, clercod ariannol eraill, 4122
Ffeilio a chynorthwywyr/clercod cofnodion eraill, 4131
Clercod rheoli stoc, 4133
Cynorthwywyr/clercod cronfeydd data, 4136
Teleffonyddion, 4141
Gweithredwyr cyfathrebu, 4142
Cynorthwywyr/clercod swyddfa cyffredinol, 4150
Cynorthwywyr personol ac ysgrifenyddion eraill, 4215
Cynorthwywyr gwerthiant a manwerthu, 7111
Gwerthwyr dros y ffôn, 7113
Prynwyr a swyddogion pwrcasu (50%), 3541
Gweithwyr cysylltiol marchnata, 3543
Swyddogion personél a Chysylltiadau diwydiannol, 3562
Rheolwyr credyd, 4121
Cyfwelwyr ymchwil i'r farchnad, 4137
Ysgrifenyddion cwmni (ag eithrio ysgrifenyddion siartredig cymwys), 4214
Galwedigaethau perthnasol i werthiant nec*, 7129
Asiantau/gweithredwyr canolfannau ffonio, 7211
Galwedigaethau gofal cwsmer, 7212
Galwedigaethau swyddfa elfennol nec*, 9219

* nec – na ddosbarthir mewn man arall

**Crefftau pren a dodrefnu mewnol**
Seiri ac asiedyddion, 5315
Gwneuthurwyr patrymau, 5493
Gweithredwyr peiriannau papur a phren, 8121
Gwneuthurwyr dodrefn, crefftwyr pren eraill, 5492
Llafurwyr crefftau adeiladu a phren (9%), 9121
Masnachau adeiladu nec* (25%), 5319

**Bricwyr**
Bricwyr, seiri maen, 5312

**Arbenigwyr amlen adeilad**
Masnachau adeiladu nec* (50%), 5319
Llafurwyr crefftau adeiladu a phren (5%), 9121

**Peintwyr a phapurwyr**
Peintwyr a phapurwyr, 5323
Masnachau adeiladu nec* (5%), 5319

**Plastrwyr a leinwyr sych**
Plastrwyr, 5321

**Gosodwyr toeau**
Gosodwyr toeau, teilswyr a llechwyr, 5313

**Gosodwyr lloriau**
Gosodwyr lloriau a theilswyr waliau, 5322

**Gwydrwyr**
Gwydrwyr, gwneuthurwyr a gosodwyr ffenestri, 5316
Masnachau adeiladu nec* (5%), 5319



* nec – na ddosbarthir mewn man arall

**Gweithredwyr adeiladu arbenigol nec***
Gweithredwyr adeiladu nec* (80%), 8149
Masnachau adeiladu nec* (5%), 5319
Galwedigaethau proses glanhau diwydiannol, 9132

**Sgaffaldwyr**
Sgaffaldwyr, llwyfanwyr, rigwyr, 8141

**Gweithredwyr safle**
Gyrwyr craeniau, 8221
Gweithredwyr offer a pheiriannau nec*, 8129
Gweithredwyr trafnidiaeth nec*, 8219
Gyrwyr wagenni fforch godi, 8222
Gweithredwyr gyrwyr peiriannau symudol nec*, 8229
Gyrwyr peiriannau amaethyddol, 8223

**Peirianwyr/ffitwyr safle**
Gosodwyr cynhyrchu a chynnal gwaith metal, 5223
Gwneuthurwyr ac atgyweiriwyr offer manylwaith, 5224
Mecanyddion moduron, peirianyddion ceir, 5231
Llafurwyr nec* mewn gweithrediadau proses a gwaith, 9139
Gwneuthurwyr offer, ffitwyr offer a marcwyr, 5222
Adeiladwyr ac atgyweiriwyr corff cerbydau, 5232
Trydanwyr cerbydau, 5233
Chwistrellwyr paent cerbydau, 5234
Gofaint aur, gofaint arian, gweithwyr cerrig gwerthfawr, 5495
Gosodwyr teiars, disbyddwyr a sgriniau gwynt, 8135

**Codwyr haearn/strwythurol**
Codwyr haearn, 5311
Masnachau weldio, 5215
Gweithwyr metel dalen, 5213
Gweithwyr metel haenell, seiri llongau a rhybedion, 5214
Masnachau adeiladu nec* (5%), 5319
Gofaint a gweithwyr gefail, 5211
Mowldwyr, gwneuthurwyr craidd, dei castwyr, 5212
Gosodwyr a gweithredwyr gosod peiriannu metel, 5221

**Llafurwyr nec***
Llafurwyr crefftau adeiladu a phren (80%), 9121

**Crefftwyr a gosodwyr trydan**
Trydanwyr, gosodwyr trydanol, 5241
Peirianwyr trydanol/electronig nec*, 5249
Peirianwyr telegyfathrebu, 5242
Atgyweiriwyr llinell a bregwyr ceblau, 5243
Peirianwyr teledu, fideo a sain, 5244
Peirianwyr cyfrifiadur, gosod a chynnal, 5245





Cynulliad Cenedlaethol, Caerdydd

* nec – na ddosbarthir mewn man arall

**Masnachau plymio a gwresogi, awyru ac aerdymheru**
Masnachau plymio a HVAC, 5314
Gosodwyr pibellau, 5216
Llafurwyr crefftau adeiladu a phren (6%), 9121
Masnachau adeiladu nec* (5%), 5319

**Logisteg**
Gyrwyr cerbydau nwyddau trwm, 8211
Gyrwyr faniau, 8212
Pacwyr, potelwyr, canwyr, llenwyr, 9134
Swyddi eraill trin a storio nwyddau nec*, 9149
Prynwyr a swyddogion pwrcasu (50%), 3541
Clercod trafnidiaeth a dosbarthu, 4134
Gardiaid diogelwch a galwedigaethau perthynol, 9241

**Gweithredwyr peiriannu sifil nec***
Gweithredwyr adeiladu ffyrdd, 8142
Gweithredwyr adeiladu a chynnal rheilffyrdd, 8143
Gweithwyr chwarel a gweithredwyr perthynol, 8123
Gweithredwyr adeiladu nec* (20%), 8149
Llafurwyr mewn masnachau adeiladu eraill nec*, 9129

**Gweithwyr nad ydynt yn adeiladu**
Gweithredwyr proses creu a thrin metel, 8117
Gweithredwyr proses nec*, 8119
Gweithredwyr peiriannau gwaith metel, 8125
Gweithredwyr ffatrïoedd d r a charthffosiaeth, 8126
Cysodyddion (cerbydau a nwyddau metel), 8132
Archwilwyr a phrofwyr rheolaidd, 8133
Cysodwyr a gweithredwyr rheolaidd nec*, 8139
Dadlwythwyr, docwyr a thaflwyr, 9141
Galwedigaethau crefft llaw nec*, 5499
Galwedigaethau diogelwch elfennol nec*, 9249
Glanhawyr, gweithwyr domestig, 9233
Ysgubwyr ffordd, 9232
Garddwyr a thirmyn, 5113
Gofalwyr, 6232

**Peirianwyr sifil**
Peirianwyr sifil, 2121

**Gweithwyr adeiladu a staff technegol eraill**
Peirianwyr mecanyddol, 2122
Peirianwyr trydanol, 2123
Peirianwyr cemegol, 2125
Peirianwyr cynllunio a datblygu, 2126
Peirianwyr cynhyrchu a phroses, 2127
Peirianwyr cynllunio a rheoli ansawdd, 2128
Gweithwyr peirianyddol nec*, 2129
Technegwyr trydanol/electronig, 3112
Technegwyr peirianneg, 3113
Technegwyr adeiladu a pheiriannu sifil, 3114
Technegwyr gwyddoniaeth a pheiriannu nec*, 3119
Technolegwyr pensaernïol a thechnegwyr cynllunio trefol, 3121
Dylunwyr, 3122
Technegwyr sicrwydd ansawdd, 3115
Cynllunwyr tref, 2432
Peirianwyr trydanol, 2124
Archwilwyr adeilad, 3123
Ymchwilwyr gwyddonol, 2321

**Penseiri**
Penseiri, 2431

**Syrfewyr**
Syrfewyr meintiau, 2433
Syrfewyr siartredig (nid Syrfewyr meintiau), 2434

* nec – na ddosbarthir mewn man arall

# Atodiad V – Gwefan a manylion cyswllt CSN

**Gwefan Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu – http://www.cskills.org/csn**
Mae gwefan CSN yn **borth cyhoeddus** i bobl sydd eisiau mynediad i ddetholiad o adroddiadau **Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI)** a **deunydd ymchwil** a gynhyrchir yn rheolaidd gan y CSN.

Gellir lawrlwytho prif adroddiad y Deyrnas Unedig, ynghyd â'r 12 adroddiad LMI (un ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a phob un o naw o ranbarthau Lloegr) o'r safle, tra bod adroddiadau ymchwil megis '2020Vision' a 'Closer look at Greater London' hefyd ar gael.



Mae cael mynediad i'r detholiad hwn o wybodaeth a thueddiadau am y farchnad lafur yn galluogi'r diwydiant, llywodraeth, asiantau rhanbarthol a rhanddeiliaid allweddol i:

- bennu'r sgiliau cysylltiol, penodol fydd angen blwyddyn ar ôl flwyddyn
- nodi'r sectorau sy'n debygol o fod yr ysgogyddion twf cryfaf ym mhob rhanbarth a chenedl ddatganoledig
- olrhain yr economi macro
- deall sut mae digwyddiadau economaidd yn effeithio ar berfformiad economaidd cenhedloedd datganoledig
- amlygu tueddiadau ledled y diwydiant megis symudiadau cenedlaethol a rhanbarthol mewn galw
- cynllunio ymlaen llaw a delio ag anghenion sgiliau gweithlu sy'n draddodiadol ymfudol
- deall y lefelau o newydd-ddyfodiaid cymwys a medrus sydd angen yn y gweithlu

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am:

- sut mae'r CSN yn gweithredu
- arddull Model y CSN
- sut y gellir defnyddio'r Model i archwilio sefyllfaoedd
- manylion cyswllt tîm CSN
- mynediad i ymchwil perthynol SgiliauAdeiladu
- manylion ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn dod yn aelodau o'r rhwydwaith.

Gellir dod o hyd i wefan CSN yn:
**http://www.cskills.org/csn**

**Parth Aelodau CSN**
Er mai parth cyhoeddus Gwefan CSN yw’r porth ar gyfer adroddiadau LMI ac ymchwil cyflawn, mae manteision pellach i fod yn aelod o'r CSN.

Fel aelod o’r CSN bydd gennych gyswllt i un o’r Grwpiau Arsylwi sy’n chwarae rhan hanfodol trwy adborthi arsylwadau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar beth sy’n digwydd ar dir gwlad ym mhob rhanbarth a chenedl yn y Deyrnas Unedig.

Defnyddir yr adborth hwn i gywreinio'r tybiaethau a data sy’n rhan o’r rhaglen rhagweld, megis:

- manylion prosiectau penodol
- galw o fewn mathau amrywiol o waith neu sectorau
- cyflenwad llafur
- mewnlif ac all-lif yn y rhanbarthau a chenhedloedd datganoledig

Felly mae gan Aelodau’r CSN:

- fynediad buan i ragolygon
- y cyfle i ddylanwadau ar a hysbysu data
- y gallu i ofyn am senarios allai ddelio â chwestiynau o fath “Beth fyddai’n digwydd os...” yn defnyddio’r model.

Trwy barth Aelodau gwefan CSN, gall aelodau:

- gael mynediad i ddeunydd arsylwi megis dyddiadau cyfarfodydd, agendâu, cyflwyniadau a nodiadau
- gael mynediad i adroddiadau isranbarthol LMI
- lawrlwytho deunydd ymchwil atodol
- roi sylwadau/adborth i Dîm CSN.

Gan fod y grwpiau Arsylwi yn tynnu sylw at y gwir broblemau mae’r diwydiant yn y Deyrnas Unedig yn wynebu, gallwn gynllunio ymateb mwy effeithiol ac effeithlon i anghenion sgiliau. Os hoffech gyfrannu’ch sylwadau, gwybodaeth a dealltwriaeth o’r diwydiant i’r broses hon a dod yn aelod o’r CSN, byddem yn falch iawn i glywed gennych.

**Manylion Cyswllt**
Am ragor o wybodaeth am wefan CSN, neu i gofrestru diddordeb mewn ymuno â’r CSN fel aelod, cysylltwch â ni trwy: **csn@cskills.org**

Am ymholiadau yn ymwneud â gwaith y CSN, cysylltwch â Sandra Lilley, Rheolwr CSN, trwy: **sandra.lilley@cskills.org**




Mae’r deunyddiau hyn, ynghyd â’r holl hawliau eiddo deallusol a gynhwysir ynddynt yn eiddo i Fwrdd Hyfforddi Diwydiant Adeiladu (SgiliauAdeiladu). Hawlfraint 2005 (“SgiliauAdeiladu”) ac ni ddylid eu copïo, atgynhyrchu na throsglwyddo i drydedd blaid heb gytundeb ysgrifenedig o flaen llaw gan SgiliauAdeiladu. Crëir y deunyddiau hyn yn defnyddio data a gwybodaeth a ddarparwyd i SgiliauAdeiladu ac/neu EXPERIAN Cyfyngedig (“Experian") gan drydedd blaid nad yw EXPERIAN na SgiliauAdeiladu yn gallu rheoli na gwirio eu cywirdeb. Felly, nid yw naill ai EXPERIAN na SgiliauAdeiladu yn rhoi unrhyw warant ynglŷn â chywirdeb neu addasrwydd i unrhyw bwrpas penodol y deunyddiau hyn. Ymhellach, nid yw’r deunyddiau hyn yn cynnwys cyngor ac ni ddylid eu defnyddio fel unig sail ar gyfer unrhyw benderfyniad busnes ac o’r herwydd ni ellir dal EXPERIAN na SgiliauAdeiladu yn atebol am unrhyw benderfyniadau a wnaed ar sail hyn. Rydych yn cydnabod na ellir cymryd deunyddiau sy’n defnyddio data empirig ac/neu ddata ystadegol ac/neu fodelu data ac/neu dechnegau rhagweld i ddarparu data mynegol neu broffwydol fel gwarant o ganlyniad neu ddeilliant penodol.

CMI-1124 (02/09)

Am ragor o wybodaeth am y
Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu,
cysylltwch â:
Sandra Lilley
Rheolwr CSN
0300 456 7933
sandra.lilley@cskills.org

**Swyddfa Cymru:**
Unedau 4 a 5
Canolfan Fusnes Pen-y-bont
David Street
Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-bont
Pen-y-bont
CF31 3SH



skills FOR BUSINESS

Mae CITB-SgiliauAdeiladu, CIC a CITB Gogledd Iwerddon yn gweithio fel SgiliauAdeiladu, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Adeiladu. (Rhif elusen gofrestredig CITB-SgiliauAdeiladu 264289)

Rhan o rwydwaith Sgiliau Busnes o 25 Cyngor Sgiliau Sector dan arweiniad cyflogwyr.